
# SALM 8
# MAE DUW MOR FAWR!

O ARGLWYDD, ein brenin, mae dy enw di mor fawr drwy'r byd i gyd! Mae dy ysblander yn gorchuddio'r nefoedd yn gyfan!



Gyda lleisiau plant bach a babanod rwyt yn dangos dy nerth, yn wyneb dy elynion, i roi diwedd ar y gelyn sy'n hoffi dial.




Wrth edrych allan i'r gofod, a gweld gwaith dy fysedd, y lleuad a'r sêr a osodaist yn eu lle,



Beth ydy pobl i ti boeni amdanyn nhw? Pam cymryd sylw o un person dynol?



Rwyt wedi ei wneud ond ychydig is na'r bodau nefol, ac wedi ei goroni ag ysblander a mawredd!




wyt wedi ei wneud yn feistr ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei awdurdod –




defaid ac ychen o bob math, a hyd yn oed yr anifeiliaid gwylltion;





yr adar sy'n hedfan, y pysgod sy'n y môr, a phopeth arall sy'n teithio ar gerrynt y moroedd.

O ARGLWYDD, ein brenin, mae dy enw di mor fawr drwy'r byd i gyd!



Copyright © 2025, Trueway Kids